UK Government
Llywodraeth y DU

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# Cronfa Adfywio Cymunedol y DU 2021-22

UK Government
Llywodraeth y DU

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# Materion ymarferol

- Defnyddiwch y swyddogaeth sgwrsio ar gyfer y sesiwn Holi ac Ateb (Mud)
- Mae Gwaith Papur a Chwestiynau ar gael yn Gymraeg a Saenseg

# Diben heddiw

- Amlygu amcanion a gofynion y Llywodraeth ar gyfer y Gronfa
- Edrych ar 4 thema'r cynllun ariannu
- Nodi rôl y Cyngor
- Nodi'r broses ymgeisio a sgorio

# Cyflwyniad i Gronfa Adfywio Cymunedol y DU

- £220 miliwn
- 90% refeniw 10% cyfalaf
- Mae'n eistedd ochr yn ochr â'r Gronfa Codi'r Gwastad ac yn rhagflaenu'r Cronfa Ffyniant Gyffredin
- Caiff cyllid ei ddyrannu'n gystadleuol ar Lefel y DU
- 6 mis o prosiectau o ansawdd i gysylltu â'r system
- Croesewir ceisiadau gan sefydliadau lleol a chenedlaethol

Canllawiau'r llywodraeth yw:

> "Dylai awdurdodau arwain wahodd cynigion am brosiectau gan amrywiaeth o ymgeiswyr lleol, gan gynnwys cynghorau dosbarth lleol, sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol a darparwyr addysg lleol gan gynnwys prifysgolion."

Bwriad y Llywodraeth yw:

> "Cefnogi cymunedau ar draws y DU yn 2021-22 i gynnal cynllun peilot o raglenni ac ymagweddau newydd wrth i'r llywodraeth symud i ffwrdd o fodel Cronfeydd Strwythurol yr UE a thuag at Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU."

# Bro Morgannwg

- NID yw Bro Morgannwg mewn ardal y 100 uchaf
- Mae angen i brosiectau fod yn dda er mwyn sgorio'n dda
- Mae'n rhaid i gynigion cyfunol ddod i gyfanswm o £500,000 (isafswm) i £3,000,000 (uchafswm)
- Yn eistedd ochr yn ochr â'r Gronfa Codi'r Gwastad
- Caiff cyllid ei ddyrannu'n gystadleuol
- Y Fro yw'r Awdurdod Arwain ac mae'n rhaid iddo gyflwyno cynigion fel un cyflwyniad
- Sefydlwyd panel i asesu a rhoi ceisiadau ar restr fer yn annibynnol
- Mae angen iddo alinio â Chynllun Corfforaethol Cyngor y Fro
- Mae'n rhaid i brosiectau adlewyrchu anghenion cymunedau a busnesau lleol

UK Government
Llywodraeth y DU

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# Themâu'r gronfa

- Buddsoddi mewn Sgiliau
- Buddsoddi mewn Busnesau Lleol
- Buddsoddi mewn Cymunedau a Lle
- Cefnogi pobl i Gael Gwaith

# Buddsoddi mewn Sgiliau

## Enghreifftiau'r Llywodraeth:

- Hyfforddiant yn y gwaith
- Ailhyfforddi, uwchsgilio neu ailsgilio aelodau'r gweithlu
- Hyrwyddo datblygu sgiliau digidol a chynhwysiant

Dylai cynigion ddangos eu bod yn ffitio'n strategol a chysylltu â sgiliau lleol ac angen y farchnad lafur.

Mae angen i gynigion roi tystiolaeth nad yw'r prosiect yn gwrthdaro â pholisi ehangach llywodraeth y DU

Dylai cynigion fod yn amlwg ar wahân i'r arian a ddarperir drwy ffrydiau arian  eraill.

Croesewir prosiectau arloesol sy'n mynd i'r afael â sgiliau lleol presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg.

# Buddsoddi mewn Busnesau Lleol

## Enghreifftiau'r Llywodraeth:

- Cefnogi entrepreneuriaid a helpu busnesau gyda photensial i greu mwy o gyfleoedd gwaith i gyflogeion presennol neu gyflogi cyflogeion newydd.
- Annog busnesau i ddatblygu eu potensial i arloesi
- Cefnogi mesurau datgarboneiddio

Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb arbennig mewn prosiectau sy'n targedu cymorth ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac ymyriadau ar lefel gymunedol i bawb, gan gynnwys mentrau arfordirol a gwledig.

Buddsoddiad mewn cynlluniau peilot i helpu i greu diwylliant o arloesi ar draws y DU.
E.e. dod o hyd i ffyrdd newydd o hyrwyddo mabwysiadu gwyrdd a thechnolegol, masnacheiddio neu helpu i greu llwybr ar gyfer uwch-sgilio busnesau lleol drwy gydweithio rhwng addysg uwch a busnesau bach.

# Buddsoddi mewn Cymunedau a Lle

## Enghreifftiau'r Llywodraeth

- Astudiaethau o ddichonoldeb ar gyfer cyflawni prosiectau ynni net-sero a lleol
- Archwilio cyfleoedd i hyrwyddo adfywio a datblygu cymunedol a arweinir gan ddiwylliant
- Gwella mannau gwyrdd a chadw asedau lleol pwysig
- Hyrwyddo cysylltedd gwledig

Mae cymunedau wrth wraidd ein treftadaeth a'n hunaniaeth ddiwylliannol ac economaidd.

Gall buddsoddi mewn gwella, diogelu a chreu asedau cymunedol a naturiol hybu balchder a lles, gyrru cynhyrchiant, denu a chadw talent, a meithrin ymdeimlad unigryw o le.

# Cefnogi pobl i gael gwaith

## Enghreifftiau'r Llywodraeth

- Cefnogi pobl i ymgysylltu â gwasanaethau cyflogaeth lleol
- Nodi a mynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth neu symud yn nes at y farchnad lafur
- Codi dyheadau, cefnogi unigolion i gael mynediad at gymorth cyflogaeth Plan for Jobs
- Cefnogi pobl i gael sgiliau sylfaenol y mae eu hangen arnynt ar gyfer gwaith
- Profi beth sy'n gweithio wrth helpu pobl i symud tuag at y Gwaith

Dylai cynigion ddangos sut y bydd eu cynnig yn ategu gweithgarwch prif ffrwd.

Dod ag ystod o ddarparwyr gwasanaethau ynghyd i ddarparu gwasanaeth cymorth cyflogaeth cydgysylltiedig.

Cymorth i unigolion oresgyn eu rhwystrau lluosog neu gymhleth i gael eu cyflogi.

Targedu'r rhai sydd wedi ymddieithrio fwyaf o'r farchnad lafur.

UK Government
Llywodraeth y DU

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# Amserlen gyfredol

- **13 Ebrill** – Lansio gwefan y Gronfa Adnewyddu Cymunedol a galwad agored am geisiadau
- **23 Ebrill** – Digwyddiad Gweminar/Ar-lein i amlinellu'r broses ymgeisio
- **26 Ebrill a 3 Mai** – Cymorthfeydd 1-1 ar-lein ddydd a nos
- **10 Mai** – Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cyflwyniadau lleol
- **18 Mehefin** – Dyddiad cau i'r Awdurdod arweiniol gyflwyno cais i'r Llywodraeth
- **Diwedd mis Gorffennaf** – Cadarnhau prosiectau llwyddiannus i'w cyflawni
- **31 Mawrth 2022** – Dyddiad gorffen cyflawni'r prosiect

UK Government
Llywodraeth y DU

# Gwybodaeth allweddol

| | |
|---|---|
| Ydych chi'n gymwys i dderbyn cymorth Cronfa Adfywio Cymunedol y DU? | • Sefydliadau a gyfansoddwyd yn gyfreithiol; gallai hyn gynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau'r sector cyhoeddus, sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, cwmnïau sector preifat ac elusennau cofrestredig.<br>• Ni fydd Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn rhoi cyllid i unigolion i gyflawni prosiectau.<br>• Gall sefydliadau sector preifat ac elusennau cofrestredig fod yn ddarparwyr prosiectau lle maent yn darparu gwasanaeth er budd sefydliadau neu unigolion eraill. Ni allant gael cymorth os mai bwriad y prosiect yw hyrwyddo eu busnes/sefydliad eu hunain |
| Fydd y prosiect wedi'i gwblhau erbyn 31 Mawrth 2022? | Ystyriwch amserlenni. Ni fydd dyfarniadau cyllid yn digwydd tan ddiwedd mis Gorffennaf felly byddwch yn realistig, caniatewch amser caffael/recriwtio. |
| Ydy'r prosiect yn mynd i'r afael ag angen sydd wedi ei nodi yn y Prosbectws? Fyddai'r prosiect yn dyblygu darpariaeth genedlaethol neu leol arall?/Fyddai'r prosiect yn gwrthdaro â pholisi cenedlaethol? | Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU – Prosbectws |
| Ydy'r prosiect yn mynd i'r afael ag angen a nodir yn y gwahoddiad lleol i gyflwyno ceisiadau? | Cynllun Corfforaethol Cyngor y Fro a'r Cynllun Cyflawni Blynddol |
| Costau - Sut mae'r gyllideb gyffredinol wedi'i hamcangyfrif, beth sydd wedi'i wneud i brofi ei bod yn gywir, sut byddai unrhyw gostau annisgwyl yn cael eu rheoli? | Mae gwariant Cronfa Adfywio Cymunedol y DU ar ffurf caffael gan gyrff sector cyhoeddus yn cael ei reoli gan reoliadau caffael y DU. Rhaid i Awdurdodau Arweiniol roi rheolaethau priodol a chymesur ar waith i sicrhau bod caffael a gyflawnir gan ddarparwyr neu fuddiolwyr prosiectau nad ydynt yn rhan o'r sector cyhoeddus yn cynrychioli gwerth am arian ac yn sicrhau bod perygl twyll mor isel â phosibl. |
| Ystyriwch werthuso | Rhaid nodi cyllideb werthuso'r prosiect yn rhan 3 c. y cais. Dylai hyn fod yn 1-2% o'r swm y gofynnir amdano o Gronfa Adfywio Cymunedol y DU, gydag throthwy o £10,000 o leiaf. |
| Sut i gyflwyno | Ffurflen Gais i CRFApplications@valeofglamorgan.gov.uk erbyn canol dydd ar 10 Mai 2021 |

# Asesu

Bydd y Cyngor yn sefydlu panel yn cynnwys cynrychiolwyr o’r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Rhoddir marc allan o 5 i bob is-faen prawf. Caiff hyn ei drosi'n sgôr canran ar gyfer y thema (e.e. byddai marc uchaf o 25 yn rhoi sgôr o 100%). Rhaid i brosiectau nad ydynt yn canolbwyntio'n bennaf ar feysydd blaenoriaeth sgorio o leiaf 80% i'w rhoi ar y rhestr fer gyda Llywodraeth y DU.

| Ffit Strategol | Pa mor gyflawnadwy, effeithiol ac effeithlon |
|---|---|
| 1. Lefel y cyfraniad at anghenion lleol sydd wedi eu mynegi mewn cynlluniau lleol perthnasol a gyda thystiolaeth o gefnogaeth leol. | 1. O ran ei gyflawni fel y'i cynigiwyd erbyn mis Mawrth 2022, gyda cherrig milltir realistig wedi eu nodi. |
| 2. Lefel y cyfraniad at flaenoriaeth buddsoddi sydd wedi ei nodi yn adrannau 3.2 i 3.5 y prosbectws | 2. Risgiau’r prosiect wedi eu nodi a’u lliniaru'n ddigonol, gan gynnwys rheolaethau arolygu ar lefel prosiect. |
| 3. Graddau'r cyfraniad at amcanion sero net, fel y nodir yn adran 3.1.1 y prosbectws, neu ystyriaethau amgylcheddol ehangach (ddim yn berthnasol i ymyriadau cymorth cyflogaeth) | 3. Yr ymgeisydd yn nodi dull darparu effeithlon, ystyried lefel yr arloesi a gynigir ac a fydd yn gweithredu ar raddfa briodol. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o werth am arian ac yn ystyried:<br>• lefel y cyfraniad at allbynnau rhaglenni am y cyllid yr ymgeisir amdano<br>• faint o arian cyfatebol neu ysgogiad a gynigir i sicrhau'r effaith fwyaf posibl (ddim yn berthnasol i ymyriadau cyflogaeth). |
| 4. I ba raddau y gall y prosiect gyfrannu at Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU o ran dysgu trosglwyddadwy neu gyfleoedd i gynyddu ar raddfa ar gyfer partneriaid lleol a llywodraeth y DU. | 4. Na fyddai'r prosiect yn mynd rhagddo heb gyllid neu mai dim ond ar raddfa lai y gellid ei gyflawni. |
| 5. I ba raddau y mae'r prosiect yn dangos arloesedd wrth ddarparu gwasanaethau. | 5. Strategaeth fonitro a gwerthuso effeithiol wedi'i nodi ar gyfer y prosiect. |

# Cronfa Grant Cymunedau Cryf

Yn agor ym mis Mai 2021
£837,533 dros bum mlynedd tan fis Mawrth 2025

## Cwmpas:

- Gwella gwydnwch sefydliadau drwy gefnogi prosiectau sy'n lleihau eu dibyniaeth ar gyllid grant yn y dyfodol.
- Gwneud gwaith ymgynghori, dichonoldeb, dylunio a gwaith arbenigol arall i lunio cynigion ar gyfer gweithgareddau a cheisiadau am gyllid yn y dyfodol.
- Talu costau cyfalaf cynlluniau drwy brynu peiriannau, offer neu asedau eraill.

# Cwmpas - parhad

- Gwneud gwaith a fyddai’n galluogi darparu gwasanaethau, er enghraifft, drwy gynyddu'r potensial i greu incwm.
- Gwneud cyllid Adran 106 yn agored i gymunedau penodol pan fo datblygiadau wedi'u cyflawni. Caiff cyllid ar gyfer cyfleusterau a phrosiectau mannau agored mewn ardaloedd penodol eu cyhoeddi wrth agor pob rownd i geisiadau.
- Annog prosiectau sy'n cynnwys ffyrdd arloesol o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

# Cymorthfeydd 1-1

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dydd Llun 26 Ebrill | | | | (13.00-13.30) | (14.00-14.30) | | |
| Dydd Mawrth 27 Ebrill | (10.00-10.30) | (11.00-11.30) | (12.00-12.30) | | | | |
| Dydd Mercher 28 Ebrill | | | | | | (19.00-19.30) | (20.00-20.30) |
| Dydd Iau 29 Ebrill | | (11.00-11.30) | (12.00-12.30) | (13.00-13.30) | (14.00-14.30) | (19.00-19.30) | (20.00-20.30) |
| Dydd Gwener 30 Ebrill | | | | (13.00-13.30) | (14.00-14.30) | | |
| Dydd Llun 3 Mai | | | | (13.00-13.30) | (14.00-14.30) | | |
| Dydd Mawrth 4 Mai | (10.00-10.30) | (11.00-11.30) | (12.00-12.30) | | | | |
| Dydd Mawrth 5 Mai | | | | (13.00-13.30) | (14.00-14.30) | (19.00-19.30) | (20.00-20.30) |
| Dydd Iau 6 Mai | | (11.00-11.30) | (12.00-12.30) | (13.00-13.30) | (14.00-14.30) | | |
| Dydd Gwener 7 Mai | | (11.00-11.30) | (12.00-12.30) | (13.00-13.30) | (14.00-14.30) | | |